Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

06.11.26



Gair gan Y Pennaeth – Headteacher's Greeting

Yn gyntaf, wi'n awyddus i nodi fy niolch i chi gyd am y geiriau caredig a'r croeso cynnes sydd wedi bod i mi wrth ddychwelyd i'r ysgol yr wythnos hon. ❤ Mae hi'n braf iawn gallu bod yn ôl yn eich plith ac yn fendigedig gallu treulio amser yng nghwmni'r plant a'r staff. Diolch i Miss Hughes am ei gofal a'i harweiniad cadarn yn fy absenoldeb ac i'r holl staff am eu gwaith caled, fel arfer.

Cafodd Dîm Pêl-droed Blwyddyn 6 lwyddiant mawr yng nghystadleuaeth pêl-droed yr Urdd yr wythnos hon gan lwyddo i gyrraedd y trydydd safle yn y twrnamaint. Mae peldroedwyr talentog iawn ymhlith y criw yma – llongyfarchiadau mawr i chi bob un!

Roedd y Bore Goffi Gymunedol a drefnwyd heddiw i gefnogi trigolion a gafodd eu heffeithio gan lifogydd yr haf yn ddigwyddiad arbennig iawn. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi, gan gynnwys cynghorwyr cymunedol, cynghorwyr Sir a Kiera Marshall (Aelod Seneddol). Cafwyd perfformiad hyfryd gan y Côr ac mae'n saff i ddweud bod y digwyddiad wedi codi calon sawl un yn y gymuned. Diolch i'r côr i Mrs Darch am arwain y trefniadau a'r côr, ac i'r GRhA a ddarparodd y lluniaeth.

Fel y gwyddoch, bydd Estyn yn ymweld â'r ysgol wythnos nesaf ac maen nhw'n awyddus i gael eich barn chi fel rhieni am yr ysgol fel rhan o'r arolygiad. Byddai'n hyfryd gweld nifer fawr ohonoch yn y cyfarfod, a fydd yn y Neuadd am **3.45pm Dydd Llun**. Rydym yn hapus i ofalu am eich plant er mwyn eich caniatáu i ddod. Mae manylion isod am drefniadau'r cyfarfod a chasglu plant ar ddiwedd dydd. Diolch i chi i gyd am bob cefnogaeth.

* * * * * *

To begin, I would like to express my diolch to you all for the kind words and warm welcome that I have received upon returning to school this week ❤ It is so lovely to be back and wonderful to be able to spend time in the company of the children and staff. Diolch to Miss Hughes for her care and leadership in my absence and to the staff for their hard work, as always.

The Year 6 Football Team had huge success in the Urdd football competition this week and managed to secure third place in the tournament. There are very talented footballers amongst you - llongyfarchiadau mawr Blwyddyn 6!

The Community Coffee Morning organised today to support residents affected by the summer floods was a very special event. Thank you to everyone who came to support, including community councillors, County councillors and Kiera Marshall (Senedd Member). The school choir gave a heartfelt performance and it's safe to say that the event lifted the hearts of many in the community. Diolch to the choir, to Mrs Darch for leading the arrangements and the choir, and to the PTA who provided refreshments.

As you know, Estyn will be visiting the school next week and they are keen to hear your views as parents about the school as part of the inspection. It would be lovely to see a large number of you at the meeting, which will be in the Hall at 3.45pm on Monday. We are happy to look after your children to allow you to come. Details of the arrangements for the meeting and collection of children at the end of the day can be found below. Thank you all for your support.

Dyddiadau Pwysig
Important Dates

Gwener / Friday 13.11.26
Diwrnod Plant Mewn Angen
Children in Need

Wythnos / Week 16.11.26
Wythnos Gwrth-fwlio
Anti-bullying week

Mawrth / Tuesday 17.11.26
Noson Agored Derbyn 5yh
Reception Open Evening 5pm

Gwener / Friday 20.11.26
UNICEF - gwisgo glas
UNICEF day – wear blue

Gwener / Friday 04.12.26
Gwasanaeth y Llan (Bl 4)
Y Llan Memorial (Year 4)

Mawrth / Tuesday 18.12.26
Mercher / Weds 09.12.26
Cyngherddau Nadolig
Christmas Concerts

Cofiwch am ein calendr byw ar dudalen cartref y wefan.

Our live calendar is on our website's homepage.

Byddwn yn cynnal **her rhedeg** ar gyfer **Plant Mewn Angen** eleni. Dewch i'r ysgol yn eich dillad eich hunain. Bydd angen i'r dillad fod yn addas i redeg – gall fod yn pyjamas os dymunwch! Bydd angen esgidiau addas i redeg ar bawb. Byddwn yn casglu cyfraniadau i'r elusen ar ffurf arian parod mewn amlen ar y dydd os dymunwch gyfrannu.

Dydd Gwener ~ Friday

13.11.26



We will be setting a **running challenge** for **Children in Need** this year. Come to school in your own clothes suitable for the physical challenge – pajamas if you are able to run in them! All children will need running footwear. If you wish to donate, we will be collecting cash donations on the day. Please bring donations in an envelope.

Trefniadau cyfarfod Estyn i Rieni

Neuadd yr Ysgol

Dydd Llun 09.11.26 @ 3.45pm

- Casglwch eich plentyn o'r man arferol
- Ewch i'r neuadd gyda'ch plentyn
- Bydd staff yn dod i'r Neuadd i gasglu eich plant ac yn gofalu amdanynt yn ystod y cyfarfod
- Casglwch eich plant o iard y feithrin ar ddiwedd y cyfarfod

Arrangements for Estyn's meeting with Parents

School Hall

Monday 09.11.26 @ 3.45pm

- Collect your child from the usual place
- Go to the hall with your child
- Staff will come to the Hall to collect your children and look after them during the meeting
- Collect your children from the nursery yard at the end of the meeting

Bws Beic

Dyddiadau Bws Beic y Tymor hwn:

13 Tachwedd
27 Tachwedd
11 Rhagfyr

Bike Bus

This term's bike bus dates:

13 November
27 November
11 December

Bws Beics: Croeso i aelodau newydd bob amser! Cofiwch lenwi'r ffurflen.

Bike Bus: New members always welcome! Remember to fill in the form.





Clybiau ar ôl ysgol

Bydd staff yn cynnig y clybiau canlynol ar ôl ysgol i ddisgyblion Blwyddyn 3-6. Diolch i'r staff i gyd am wirfoddoli.

Dydd Mercher – Celf
Dydd Iau – Gemau bwrdd

Clwb cynta'r hanner tymor – 04.11.26
Clwb ola'r tymor hanner – 03.12.26

After school clubs

Staff offer the following after school clubs to pupils in Years 3-6. Thank you to all the staff who volunteer.

Wednesday – Art
Thursday – Board games

First club of the half term – 04.11.26
Final club of the half term – 03.12.26

Llongyfarchiadau!

Cymro /
Cymraes yr
Wythnos

Welsh learners
of the week





Dysgwyr yr Wythnos /
Learners of the week

Hawl y Mis - Mis Tachwedd **Right of the month –** November





UNICEF RIGHTS RESPECTING SILVER SCHOOL AWARD

Amddiffyn a Diogelu Plant

Mae Amddiffyn a Diogelu Plant yn fater pwysig iawn. Mae dyletswydd ar bawb yn y gymuned i ddiogelu pob plentyn. Mae polisi diogelu'r ysgol ar wefan yr ysgol: Polisi Diogelu ac Plant

Pe bai gennych bryder am ddiogelwch plentyn, dylech rhannu'r pryder gyda Swyddogion Diogelu'r ysgol ar unwaith. **Swyddogion Diogelu** yr ysgol yw Mrs Helen Sharkey, Miss Alaw Hughes a Mrs Wendy Owen. Gallwch ffonio'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod diogelu.

Child Protection and Safeguarding

Child Protection and Safeguarding is an important matter. All members of the community have a duty to protect all children. The school's safeguarding policy can be found on the school's website: Safeguarding and Child Protection

If you have a concern about a child's safety, you should share the concern with the school's Safeguarding Officers immediately. The school's Safeguarding Officers are Mrs Helen Sharkey, Miss Alaw Hughes and Mrs Wendy Owen. You can call the school at any time to discuss safeguarding.



Llongyfarchiadau i dîm bêl-droed Blwyddyn 6

Congratulations to the Year 6 football team

3ydd safle - *3rd place!*





Bore Goffi Gymunedol

Community Coffee Morning



